# EUR2 07-04 e- min

# Y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol

## Cofnodion

| | |
|---|---|
| Dyddiad | 14 Hydref 2004 |
| Amser | 9.00 hyd 12.00 |
| Lleoliad | Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd |

### Yn Bresennol

| Aelodau'r Pwyllgor | Etholaeth |
|---|---|
| Sandy Mewies (Cadeirydd) | Llafur: Delyn |
| Rosemary Butler | Llafur: Gorllewin Casnewydd |
| Christine Chapman | Llafur: Cwm Cynon |
| Rhodri Morgan | Llafur: Gorllewin Caerdydd |
| Mike German | Y Democratiaid Rhyddfrydol: Dwyrain De Cymru |
| Christine Gwyther | Llafur: Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro |
| Rhodri Glyn Thomas | Plaid Cymru: Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr |
| Nick Bourne | Y Ceidwadwyr: Canolbarth a Gorllewin Cymru |

### Dirprwyon

Roedd Janet Davies yn bresennol yn lle Ieuan Wyn Jones a ymddiheurodd am fethu â bod yn bresennol.

### Swyddogion

| | |
|---|---|
| Gary Davies | Yr Is-adran Materion Ewropeaidd ac Allanol |
| Des Clifford | Yr Is-adran Materion Ewropeaidd ac Allanol |
| Caroline Turner | Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) |
| Rob Halford | Yr Is-adran Polisi Economaidd |

### Yn bresennol

| | |
|---|---|
| David Melding AC | Cadeirydd, Y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol |

### Yr Ysgrifenyddiaeth

| | |
|---|---|
| John Grimes | Clerc |
| Lynsey Edwards | Dirprwy Glerc |

## Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Jonathan Morgan AC ac oddi wrth wahoddedigion sefydlog: Jonathan Evans ASE, Glenys Kinnock ASE, Eluned Morgan ASE a Rose D'Sa.

## Eitem 2: Cofnodion y cyfarfod diwethaf a materion sy'n codi

2.1 Nodwyd mai etholaeth Jonathan Morgan oedd Canol De Cymru nid Canol y De Orllewin.

2.2 Bu i'r Aelodau holi ynghylch y newyddion diweddaraf o ran dod o hyd i rywun newydd i gymryd lle Jan Royall. Dywedodd y Clerc fod y swydd wedi'i hysbysebu a bod y broses recriwtio yn mynd rhagddi. Fodd bynnag, hyd y gwyddai ef, nid oedd y Comisiwn Ewropeaidd wedi penodi. Gofynnodd y Cadeirydd i'r Clerc hysbysu'r Aelodau pan fyddai person newydd wedi'i benodi. [Gweithredu: Y Clerc]

2.3 Cytunai'r Aelodau ag awgrym y Cadeirydd y dylai'r Clerc baratoi crynodeb o'r gweithredu a ddeilliodd o gyfarfodydd a'r camau gweithredu a gymeradwywyd. [Gweithredu: Y Clerc]

2.4 Dywedodd y Cadeirydd fod pedwar Aelod wedi datgan nad oeddent yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod ym Mrwsel y bwriedid ei gynnal ar 9 Rhagfyr. Cytunai'r Aelodau y dylai'r Pwyllgor geisio pennu dyddiad arall yn y Flwyddyn Newydd ac y byddai'r cyfarfod y bwriedid ei gynnal ar 9 Rhagfyr yn cael ei gynnal yng Nghaerdydd. Cytunai'r Aelodau y dylai'r Pwyllgor geisio sicrhau bod yr ymweliad â Brwsel mor fuddiol â phosibl a hefyd ystyried opsiynau o ran cynnal sawl ymweliad ar yr un pryd. Dywedodd y Cadeirydd ei bod yn anodd trefnu amser pan roedd Aelodau ar gael yn sgîl eu hamserlenni gwaith trwm iawn. Gofynnwyd i'r Clerc ystyried y posibiliadau a pharatoi rhai opsiynau i'r Aelodau eu hystyried. [Gweithredu: Y Clerc]

2.5 O ran cyfarfod Cadeiryddion y DU a'r Gymuned Ewropeaidd, dywedodd y Cadeirydd fod dyddiad wedi'i gymeradwyo ond byddai'n rhaid ei aildrefnu oherwydd nid oedd cynrychiolwyr Yr Alban na chynrychiolwyr Ty'r Arglwyddi yn gallu bod yn bresennol.

## Eitem 3: Adroddiad Prif Weinidog Cymru
## EUR2 07-04 (p1)

3.1 Cyflwynodd Prif Weinidog Cymru ei adroddiad a dywedodd ei fod wedi derbyn llythyr oddi wrth Eurostat yn ymddiheuro ynghylch y ffaith nad oedd Cymru i'w gweld ar glawr eu hadroddiad. Cytunodd ddosbarthu copi o'r llythyr i'r Aelodau. [Gweithredu: Prif Weinidog Cymru]

3.2 Tynnodd sylw at rannau o'i adroddiad gan gynnwys ei ymweliad â Tsieina, llwyddiant y fforwm ar Bolisi Rhanbarthol yr UE ar ôl 2006, a gynhaliwyd yng Nghaerleon ar 15 Medi, ac ymweliad Llywydd Cyngor Rhanbarthol Llydaw.

3.3 Cyfeiriodd at ginio a gafodd â Phrif Gonswl Iwerddon a oedd bellach wedi gadael Cymru. Colm McGrady fyddai'n cymryd ei le. Dywedodd y Cadeirydd ei bod wedi ysgrifennu ato.

3.4 Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch targed y DU o 1% ar gyfer y gyllideb, dywedodd Prif Weinidog Cymru nad oedd yn credu y byddai terfyn y Cynnyrch Mewnwladol Crynswth (CMC) yn cael ei gynnal. Roeddent yn ymgymryd â gwaith er mwyn ystyried dewisiadau eraill. Fodd bynnag, roedd y sefyllfa yn ddibynnol ar newidiadau i'r terfynau a bennir ar gyfer cynlluniau eraill fel y Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC)

3.5 Adroddodd Prif Weinidog Cymru ar ddatblygiadau mewn perthynas â chysylltiadau Cymru â Latfia a Silesia. Cytunodd i ddarparu crynodeb o'r mater hwn i'r Pwyllgor ac i gyflwyno'r newyddion diweddaraf yn rheolaidd. [Gweithredu: Prif Weinidog Cymru]

3.6 O ran Y Cyd-Bwyllgor Gweinidogion ar Y Gyfarwyddeb Oriau Gwaith, dywedodd Prif Weinidog Cymru nad oedd Llywodraeth Prydain yn debygol o allu cadw cytundebau eithrio unigol. Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch effaith hyn ar y GIG, dywedodd Prif Weinidog Cymru y byddai problemau'n parhau yn sgîl y ddibyniaeth ar rotâu sifft. Fodd bynnag, golygai'r rheoliadau drafft newydd fod y sefyllfa'n fwy boddhaol nag ydoedd ynghynt. Bu i'r swyddogion ddweud bod rhai camau eisoes wedi'u cymryd a bod y cynigion diwygiedig yn golygu na fyddai'r amser rhwng galwadau yn cyfrif fel oriau gwaith.

3.7 Cyfeiriwyd at y problemau â map Eurostat unwaith eto. Credai'r Aelodau y gallai'r sefyllfa fod wedi'i hosgoi petai rhagor o Gymry yn cael eu cyflogi gan y sefydliad. Gallai rhagor o bwyslais ar addysgu ieithoedd tramor mewn ysgolion hwyluso'r broses hon. Bu i'r swyddogion ddweud bod costau i'w hystyried wrth leoli gweision sifil Cymreig o fewn Y Comisiwn Ewropeaidd ym Mrwsel, ond gallai eu profiad arwain at fanteision enfawr. Awgrymodd y Cadeirydd y dylai'r mater barhau i gael ei adolygu.

3.8 O ran yr ymweliad â Tsieina, dywedodd Prif Weinidog Cymru fod tair perthynas wahanol rhwng y wlad a chwmnïau Cymreig: roedd gan rai cwmnïau Cymreig swyddfeydd yn Tsieina; roedd rhai cwmnïau yn derbyn cynnyrch o Tsieina ond nid oedd ganddynt bresenoldeb parhaol yno; ac roedd gan rai cwmnïau o Tsieina swyddfeydd yng Nghymru. Dywedodd ei bod yn bwysig bod busnesau Cymreig yn ymwybodol o gyflymder twf economaidd Tsieina ymhob maes.

3.9 Mewn perthynas â datblygiad entrepreneuriaid benywaidd Tsieinëeg, dywedodd Prif Weinidog Cymru mai menywod oedd y rhan fwyaf o'r gwleidyddion uwch ym maes masnach, ond nid oedd entrepreneuriaeth ymysg menywod mor amlwg yn Tseina.

3.10 Dywedodd Prif Weinidog Cymru fod y cysylltiadau gefeillio â Xiamen yn cael eu hailfeithrin ar lefel Weinidogol a'i fod wedi lansio menter yn Tseina, Consortiwm Rhyngwladol Cymru, a anelai at ddenu myfyrwyr o Tseina i brifysgolion Cymru. Byddai ffioedd y myfyrwyr hyn yn hwb i'w cyllidebau.

## Eitem 4: Adroddiad ar Lywyddiaeth y DU o Gyngor yr Undeb Ewropeaidd, 2005 EUR2 07-04 (p2)

4.1 Cyflwynodd Prif Weinidog Cymru yr eitem a dywedodd fod thema Llywodraeth y DU ar gyfer Llywyddiaeth y DU yn un syml. Gobeithiai y byddai rhai cyfarfodydd anffurfiol yn cael eu cynnal yng Nghymru yn ystod y cyfnod ac mai'r themâu a bwysleisir fyddai datblygu economaidd, cyflogaeth a'r amgylchedd. Fodd bynnag, llywodraeth y DU fyddai'n pennu'r blaenoriaethau.

4.2 Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch y rhaglen, dywedodd y swyddogion ei bod yn rhy gynnar i ddarparu llawer o fanylion oherwydd bod yn rhaid i lywyddiaeth y DU ddilyn diwedd llywyddiaeth Yr Iseldiroedd ynghyd â llywyddiaeth ddilynol Lwcsembwrg. Efallai y byddai'r sefyllfa yn fwy clir erbyn Pasg 2005. Roedd swyddogion yn gysylltiedig â phroses datblygu'r agenda ac roeddent yn gobeithio manteisio ar gyfleoedd i hyrwyddo Cymru. Gofynnodd y Cadeirydd i'r Pwyllgor dderbyn y newyddion diweddaraf yn rheolaidd. [Gweithredu: Prif Weinidog Cymru]

4.3 Credai'r Aelodau y dylai'r gwaith paratoi ar gyfer y llywyddiaeth ddechrau cyn gynted â phosibl. Roedd cyfleoedd fel y Digwyddiad Ieuenctid yng Nghymru yn gynlluniau unigol ardderchog a byddai'r Pwyllgor hefyd yn hoffi gweld gweithgareddau'n deillio o'r rhain. Gobeithid y byddai'r Digwyddiad Ieuenctid yng Nghymru yn annog plant o bob gallu a chefndir i gymryd rhan.

4.4 Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch materion amgylcheddol, dywedodd Prif Weinidog Cymru nad oedd yn debygol iawn y byddai'r cyfarfod am yr amgylcheddol yn cael ei gynnal yng Nghymru, ond efallai y byddai'n bosibl trafod materion amgylcheddol mewn cyfarfodydd eraill. Dibynna hyn ar nifer y cyfarfodydd anffurfiol a fyddai'n cael eu cynnal yng Nghymru.

4.5 O ran yr agenda bolisi, dywedodd Prif Weinidog Cymru ei fod wedi diogelu sefyllfa Cymru er mwyn ceisio amddiffyn ei buddiannau.

4.6 Dywedodd y Cadeirydd fod y Clerc wedi bod mewn cysylltiad â Llysgenhadaeth Lwcsembwrg a gobeithiai y byddai rhywun ar gael i ddod i gyfarfod y Pwyllgor ar 9 Rhagfyr er mwyn trafod eu llywyddiaeth.

**Eitem 5: Rheoliadau Newydd y Cronfeydd Strwythurol**
**EUR2 07-04 (p3)**

5.1 Cyflwynodd Prif Weinidog Cymru yr eitem a dywedodd mai'r prif faterion i'w hystyried oedd Cymorth y Wladwriaeth a Chronfeydd Strwythurol. O ran Cymorth y Wladwriaeth, roedd angen ystyried a ddylai fod yn seiliedig ar lefel NUTS 2 neu NUTS 3. Credai y byddai Cymru'n elwa fwyaf ar ddull yn seiliedig ar lefel NUTS 2. O ran Cronfeydd Strwythurol, un o'r prif faterion i'w hystyried oedd a fyddai Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn rhanbarth a fydd yn colli statws Amcan 1 wedi'r ehangu. Os byddai cymorth trosiannol yn cael ei ddarparu byddai'n lleihau dros y cyfnod hyd 2013. Fodd bynnag, byddai'n ganlyniad da i Gymru er gwaethaf hynny. Bu i'r swyddogion ddweud eu bod yn cymryd rhan mewn trafodaethau ar hyn o bryd ynghylch manylion y Rheoliadau ac roeddent wrthi'n ystyried y gwersi a ddysgwyd o'r rhaglenni presennol. O ran Cymorth y Wladwriaeth, roedd yr UE wedi gohirio cyfarfodydd ar y cyd â'r aelod-wladwriaethau hyd fis Rhagfyr. Bu i'r swyddogion gytuno i hysbysu'r Pwyllgor ynghylch dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf. [Gweithredu: Y Swyddogion]

5.2 Cytunai'r Aelodau â'r dull thematig o fynd i'r afael â chyllid strwythurol oherwydd roedd yn cynnig rhagor o gyfleoedd ar gyfer gwaith partneriaeth ymysg awdurdodau lleol. Dywedodd Prif Weinidog Cymru y gallai'r ardaloedd yn Nwyrain Cymru a allai fod ar eu colled gymryd rhan yn y rhaglen a fydd yn cymryd lle INTERREG. Croesawai'r Aelodau y ffaith bod y cynlluniau ariannu wedi'u symleiddio. O hyn ymlaen byddai gan bob rhaglen gronfa unigol yn hytrach na chronfeydd niferus. Serch hynny, roeddent wedi gobeithio gweld rhagor o gymesuredd o ran rheolaeth ariannol ac archwilio.

5.3 Bu i'r Aelodau fynegi pryderon ynghylch aelodaeth y Grp Rhanddeiliaid Allanol ac ynghylch y ffaith bod 16 o'r 20 aelod yn gweithio o fewn y sector cyhoeddus. Er bod y Grp hwn yn cynnwys cynrychiolaeth o'r sector preifat, roedd ar sail rota gylch. Nid oedd cyfyngiad o'r fath ar y gynrychiolaeth o'r sector cyhoeddus. Dywedodd Prif Weinidog Cymru fod angen sicrhau cydbwysedd rhwng ystod y gynrychiolaeth a maint y grp.

5.4 Teimlai'r Aelodau fod angen ymgymryd â gwaith dadansoddi ynghylch canlyniadau'r gwahanol opsiynau o ran Cymorth y Wladwriaeth i Gymru ac ynghylch y gwahaniaethau rhwng mabwysiadu dull NUTS 2 a dull NUTS 3. Er bod rhai agweddau ar y wybodaeth yn gymhleth, ac y gallai rhai opsiynau newid, cytunodd Prif Weinidog Cymru i rannu'r wybodaeth â'r Pwyllgor i'r graddau yr oedd hynny'n bosibl. Byddai'n ceisio darparu'r mapiau posibl o dan bob cynnig i'r Pwyllgor erbyn y cyfarfod nesaf. [Gweithredu: Prif Weinidog Cymru].

5.5 O ran y cynigion ynghylch y Cronfeydd Strwythurol ar ôl 2006, dywedodd Prif Weinidog Cymru fod angen darbwyllo'r Trysorlys i roi ystyriaeth arbennig i sefyllfa Cymru. Fodd bynnag, ni theimlai Prif Weinidog Cymru y gallai'r nenfwd o 1% o ran CMC na'r lefel bresennol o gronfeydd strwythurol i Gymru barhau.

5.6 Mewn perthynas â phryderon ynghylch amddifadedd mewn rhai ardaloedd yng Nghymru, dywedodd Prif Weinidog Cymru y byddai rhaglenni penodol, fel Cymunedau yn Gyntaf, yn cynorthwyo â gorchfygu'r problemau hyn.

5.7 Awgrymodd Aelod y gallai canolbwyntio'n arbennig ar ardaloedd llai fod yn fuddiol wrth dargedu cymorth a chyfeiriodd at wybodaeth a oedd ar gael yn lleol a allai gynorthwyo â hyn. Mewn ymateb, dywedodd Prif Weinidog Cymru y gallai pobl sy'n teithio yn ôl a blaen amharu ar y ffigurau ar gyfer ardaloedd bach iawn, ac ardaloedd nad oes iddynt ffiniau daearyddol naturiol. Roedd angen hefyd mabwysiadu setiau data a oedd yn gyson â'r dulliau a ddefnyddid mewn gwledydd eraill yn yr UE.

## Eitem 6: Trafodaeth â Chadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch Materion Ewropeaidd ac Allanol.

6.1 Cyflwynodd David Melding yr eitem a dywedodd fod y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi datblygu protocol er mwyn gwella'r gwaith o graffu ar is-ddeddfwriaeth. Golygai hyn fod yr Aelodau'n derbyn rhestrau ymhob cyfarfod yn cynnwys yr holl eitemau posibl o is-ddeddfwriaeth ynghyd â disgrifiad byr ohonynt. Gallai'r Aelodau dderbyn mwy o wybodaeth amdanynt drwy gysylltu â Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau.

6.2 O ran symudedd cleifion, dywedodd David Melding fod y Comisiwn Ewropeaidd wedi gofyn i feini prawf gael eu datblygu er mwyn ymdrin â'r mater hwn. Roedd yn dderbyniol ar hyn o bryd i bobl dderbyn triniaeth mewn gwlad arall oherwydd bod triniaeth o'r fath wedi'i gohirio yn eu gwlad eu hunain.

6.3 O ran dewis pa ddeddfwriaeth i graffu arni, dywedodd David Melding ei bod yn broses oddrychol a bod ei Bwyllgor bob amser yn barod i ystyried awgrymiadau oddi wrth y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol a Phwyllgorau eraill. Roedd cydweithio ar ddarn o ddeddfwriaeth hefyd yn opsiwn. Roedd yn rhaid ystyried effaith y ddeddfwriaeth ar bolisi yn ogystal. Nododd fod yn rhaid i Bwyllgor fod yn gysylltiedig â datblygiad deddfwriaeth o'r dechrau'n deg er mwyn gallu dylanwadu arni'n effeithiol.

6.4 Dywedodd y Cadeirydd fod y Clerc yn gobeithio cyflwyno'r newyddion diweddaraf i'r Pwyllgor ynghylch sut roedd y trefniadau presennol yn gweithio yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor. [Gweithredu: Y Clerc].

6.5 Wrth gloi'r drafodaeth, dywedodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor bellach wedi siarad â Chadeiryddion y rhan fwyaf o'r Pwyllgorau Pwnc a'i bod efallai'n amser cymryd seibiant cyn cychwyn cylch newydd. Cytunai'r Aelodau y dylid ymestyn y rhaglen i Gadeiryddion Pwyllgorau eraill ac awgrymwyd y dylid gwahodd Cadeirydd Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal i gyfarfod nesaf Y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol.

## Eitem 7: Cynigion Ewropeaidd a adneuwyd yn Senedd y DU
## EUR2 07-04 (p4)

7.1 Bu i'r Aelodau fynegi pryderon ynghylch cyfanswm y ddeddfwriaeth a allai fod yn berthnasol. Awgrymwyd y gallai sesiwn anffurfiol fod yn ffordd addas o ystyried y rhain ymhellach. Awgrymodd y Cadeirydd y gallai'r Clerc ystyried opsiynau a'u cyflwyno i'r Aelodau mewn neges e-bost. [Gweithredu: Y Clerc].

7.2 Nodwyd bod yr Aelodau'n dymuno ystyried yr eitemau canlynol mewn rhagor o fanylder:

| | |
|---|---|
| 821 | Cynnig ar gyfer Rheoliad gan y Cyngor ynghylch ariannu'r polisi amaethyddol cyffredin |
| 849 | Cynnig ar gyfer Rheoliad gan Senedd Ewrop a'r Cyngor ynghylch Cronfa Gymdeithasol Ewrop |
| 850 | Cynnig ar gyfer Rheoliad gan y Cyngor yn sefydlu Cronfa Gydlyniant |
| 853 | Cynnig ar gyfer Rheoliad gan Senedd Ewrop a'r Cyngor ynghylch Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop |
| 864 | Cynnig ar gyfer Rheoliad gan y Cyngor yn pennu darpariaethau cyffredinol ar Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop, Cronfa Gymdeithasol Ewrop a'r Gronfa Gydlyniant. |
| 835 | Yr Asiantaeth Amddiffyn Ewropeaidd |
| 836 | Penderfyniad drafft gan y Cyngor ynghylch y darpariaethau ariannol sy'n berthnasol i gyllideb gyffredinol yr Asiantaeth Amddiffyn Ewropeaidd |

## Eitem 8: Y newyddion diweddaraf gan Aelodau Pwyllgor y Rhanbarthau

8.1 Cyflwynodd Rosemary Butler y newyddion diweddaraf ynghylch gwaith Pwyllgor y Rhanbarthau gan gynnwys adroddiad ar ei chyfarfod yn Bwlgaria â'r gwledydd newydd sydd wedi'u derbyn i'r UE. Canolbwyntiodd y cyfarfod ar faterion yn ymwneud â llywodraeth leol a'r amgylchedd. Teimlid y byddai angen ymgymryd â llawer iawn o waith mewn perthynas â'r ail fater ar ôl i'r gwledydd newydd ddod yn rhan o'r Undeb Ewropeaidd. Roedd mewnfudo hefyd yn fater difrifol i'w ystyried gan y gwledydd newydd.

8.2 O ran y Gyllideb Ddiwylliant ar gyfer 2007-2013, dywedodd Rosemary Butler ei bod wedi derbyn cais I baratoi Barn i’w chyflwyno i Gyfarfod Llawn Pwyllgor y Rhanbarthau. Byddai hi’n cyflwyno papur cychwynnol yng nghynhadledd Pwyllgor y Rhanbarthau yn Genoa ym mis Rhagfyr. Byddai Nia Lewis o Swyddfa Cymru ym Mrwsel yn ei chynorthwyo I baratoi’r adroddiad.

8.3 Byddai dirprwyaeth yr UE o Bwyllgor y Rhanbarthau yn ymweld â Chaerdydd ym mis Rhagfyr ac anogwyd yr Aelodau i fod yn bresennol.

8.4 Roedd gwefan, www.eccowales.com wedi'i lansio â chymorth cyllid Amcan Un. Roedd y wefan yn galluogi crefftwyr i werthu eu cynnyrch ar-lein. Roedd y cynllun bellach yn cael ei ymestyn i ardaloedd Amcan Dau yn ogystal.

8.5 Dywedodd Janet Davies ei bod yn bresennol mewn cyfarfod grp o Bwyllgor y Rhanbarthau ym Mrwsel ym mis Medi a gobeithiai fod yn bresennol mewn cyfarfod pellach ar ddiwedd mis Tachwedd.

8.6 O ran yr adroddiad ar y Gyllideb Ddiwylliant ar gyfer 2007-2013, gofynnwyd i'r adroddiad drafft gael ei ddosbarthu i Aelodau'r Pwyllgor ar ôl iddo gael ei gwblhau. [Gweithredu: Rosemary Butler]

8.7 Dywedodd y Cadeirydd fod Jan Royall wedi awgrymu y gallai'r Pwyllgor ymweld â gwahanol brosiectau'r UE yng Nghymru. Gofynnodd y Cadeirydd am awgrymiadau ynghylch y mathau o brosiectau y gallai'r Pwyllgor ddymuno eu gweld. Awgrymwyd y gallai'r ymweliadau gael eu cynnal yn ystod y toriad yn sgîl cyfyngiadau amser. Awgrymwyd yn ogystal y gallai'r Cadeirydd fynd ag aelodau Pwyllgorau eraill ar ymweliadau os oedd o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol.

**Gwasanaethau'r Pwyllgorau Hydref 2004**